**DARN DARLLEN 2**

bbc.co.uk

cymru | tramor



# Tsunami - gofid a phryder Cymraes

Ionawr 2005

**Cymraes y bu trychineb De Ddwyrain Asia yn ysgytwad arbennig iddi yw Einir Jones o Ruthun.**

Treuliodd Einir ddwy flynedd yn athrawes mewn ysgol yn Phuket, Gwlad Thai, a dywedodd iddi fod yn poeni am ei ffrindiau yno ers clywed am y trychineb a dinistr y tonnau.

'Mae'n wlad boblogaidd iawn gyda thwristiaid ac yn lle hyfryd. Mi dreuliais i ddwy flynedd yn dysgu mewn ysgol yn Phuket ac ers hynny dw i wedi cadw cysylltiad â rhai o Brydain sy'n byw yn y wlad yn ogystal â rhai o'r ynyswyr,' meddai.

'Ar y dechrau, wedi i mi glywed y newyddion, dw i ddim yn meddwl iddo fy nharo mewn gwirionedd pa mor ddifrifol oedd y sefyllfa yn Ne Asia. Es i ar y cyfrifiadur a gweld bod popeth yn *chaos* a gyrru a derbyn sawl e-bost cyn sylweddoli bod y sefyllfa mor ddychrynllyd yno. Dw i wedi derbyn sawl e-bost gan ffrindiau sydd i gyd yn iawn, diolch i'r drefn, ond does wybod am y bobl oeddwn i'n eu cyfarch bob dydd. Mae yna gymunedau wedi eu difetha'n lân a rhai pobl wedi colli popeth. Mae'n andros o drist.'

A hithau wedi gweithio mewn ysgol breswyl bu tynged y plant y bu'n eu dysgu dros gyfnod o ddwy flynedd yn destun pryder arbennig i Einir.

'Mae'n anodd iawn cael unrhyw fath o gysylltiad gyda'r wlad gan ei bod yn andros o brysur yno ar hyn o bryd, ond dw i wedi derbyn neges sydd yn dweud bod pawb yn yr ysgol, yr athrawon a'r disgyblion yn iawn, ac wedi deall hynny o wefan yr ysgol hefyd. Er i hynny fod yn rhyddhad dw i heb glywed am y rhai sydd â chysylltiad â'r ysgol fel gyrwyr bws a gweithwyr cyffredinol. Dw i heb dderbyn unrhyw wybodaeth ynglŷn â nhw eto. Mae'n anodd dygymod â'r sefyllfa ar adegau.'

Er bod nifer yn teithio i Dde Asia i helpu yn dilyn y trychineb dywed Einir nad dyna ei bwriad hi.

'Petawn i'n nyrs mi fuaswn wedi hel fy mhac yn syth ond mae hi'n anodd iawn gwybod be di'r gorau ond dw i'n teimlo y buaswn yn fwy o drafferth nag o werth,' meddai.

Gyda lluniau o'r trychineb ar y teledu bob nos dywed Einir ei bod yn anodd edrych ar y lleoedd y bu hi'n ymweld â nhw yn gyson yn deilchion, a'r ardal hardd i gyd wedi ei chwalu.

'Mae'n frawychus gweld y llefydd ar y teledu a gweld sut mae'r holl le wedi newid. Does 'na ddim byd ar ôl. Dw i'n meddwl am yr ynyswyr yn gorfod wynebu'r dyfodol a cheisio rhoi'r lle yn ôl ar ei draed.'

*(Lowri Rees fu'n holi Einir Jones).*

## DARN DARLLEN 3

Cerdd gan J. J. Williams am chwedl *Cantre'r Gwaelod*.

### CLYCHAU CANTRE'R GWAELOD

O dan y môr a'i donnau
Mae llawer dinas dlos
Fu'n gwrando ar y clychau
Yn canu gyda'r nos;
Trwy ofer esgeulustod
Y gwyliwr ar y tŵr
Aeth clychau Cantre'r Gwaelod
O'r golwg dan y dŵr.

Pan fyddo'r môr yn berwi,
A'r corwynt ar y don,
A'r wylan wen yn methu
Cael disgyn ar ei bron;
Pan dyr y don ar dywod
A tharan yn ei stŵr,
Mae clychau Cantre'r Gwaelod
Yn ddistaw dan y dŵr.

Ond pan fo'r môr heb awel
A'r don heb ewyn gwyn,
A'r dydd yn marw'n dawel
Ar ysgwydd bell y bryn,
Mae nodau pêr yn dyfod,
A gwn yn eitha' siŵr
Fod clychau Cantre'r Gwaelod
I'w clywed dan y dŵr.

O cenwch, glych fy mebyd,
Ar waelod llaith y lli;
Daw oriau bore bywyd
Yn sŵn y gân i mi.
Hyd fedd mi gofia'r tywod
Ar lawer nos ddi-stŵr,
A chlychau Cantre'r Gwaelod
Yn canu dan y dŵr.

clych - clychau
mebyd - ieuenctid

